# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Nelson

**21A Commercial Street**
**Nelson**
**CF46 6NF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Nelson

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Nelson |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Anna Webb |
| Person â gofal | Sharon Lewis-Connoly a Ruth Corney ar y cyd |
| Nifer y lleoedd | 23 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 8 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.00 a 12.30 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Tachwedd 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ionawr 2012 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 29/03/2022 |

Nid yw oed y plant a ddarperir ar eu cyfer wedi newid yn sylweddol ers yr arolygiad blaenorol, ond mae llai yn mynychu nag oedd bryd hynny. Erbyn hyn, mae 15 yn mynychu'n rheolaidd lle bu 26 adeg yr arolygiad blaenorol.

Ychydig iawn o'r plant ddaw o aelwyd lle siaredir y Gymraeg.

Ychydig iawn o'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ychydig iawn o'r plant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw’r lleoliad yn cydymffurfio â’r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad ond mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i’w gwella, a dylai’r unigolyn cyfrifol roi sylw iddynt.

Bydd gwybodaeth am bob diffyg cydymffurfiaeth wedi’i chynnwys yn yr Adroddiad Cryno ar Weithredu a Gwella, fydd yn cael ei anfon ar wahân i’r adroddiad gan AGC.

## Argymhellion

A1 Datblygu a ffurfioli asesiadau risg ar gyfer yr amgylchedd a gweithgareddau achlysurol

A2 Sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu gweithredu'n rheolaidd

A3 Mireinio'r targedau yn y cynllun gwella fel eu bod yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddysgu a chynnydd plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud penderfyniadau deallus am yr hyn maent yn dymuno’i wneud. Maent yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal chwarae i’r llall gan ddewis teganau ac offer priodol.

Mae bron bob plentyn yn teimlo’n hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn adnabod yr arferion dyddiol yn dda ac yn ymgynefino’n gyflym wedi iddynt gyrraedd. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ati i olchi dwylo yn syth ar ôl cyrraedd heb gael eu hannog gan ymarferwyr. Mae bron bob un yn hapus ac yn datblygu'r ymdeimlad o berthyn yn llwyddiannus, gan wybod y caiff eu safbwyntiau a’u barn eu gwerthfawrogi gan ymarferwyr.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda. Mae bron bob un wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda’r ymarferwyr ac maent yn hyderus i fynd atynt am gymorth neu gefnogaeth, fel y bo angen. Mae’r rhan fwyaf wedi cychwyn gwneud ffrindiau a ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda’u cyfoedion. Er enghraifft, mae un plentyn yn cysuro ei ffrind trwy rwbio'i gefn wrth sylwi ei fod yn drist. Maent yn

awyddus i chwarae gyda'i gilydd ac yn sgwrsio'n  gyson yn ystod gweithgareddau ac yn ystod amser byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau'u gweithgareddau chwarae a dysgu; er enghraifft, maent yn hapus ac yn frwdfrydig wrth greu cawl gan arllwys dŵr lliwgar i botel ac ychwanegu planhigion o'r ardd. Maent yn mynegi eu mwynhad trwy wenu a chwerthin ac yn mwynhau ymchwilio a symud o un gweithgaredd i'r nesaf, gan ddyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol wrth ddefnyddio'r ystod dda o offer mawr a ddarperir ar eu cyfer y tu allan. Maent hefyd yn dysgu sut i ddefnyddio offer yn effeithiol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Er enghraifft, maent yn chwarae'n ddeallus yn y gornel gartref ac yn mwynhau defnyddio gwahanol offer ar y fainc waith.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae a dysgu ysgogol. Maent yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn hyderus wrth gasglu'r adnoddau maent eu hangen. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda, er enghraifft trwy arllwys eu diod amser byrbryd a golchi eu dwylo heb fawr o gymorth gan oedolion.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant yn briodol ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn iach a diogel. Maent yn dilyn y prosesau ar gyfer hylendid yn gyson ac yn rhagweithiol wrth atgoffa'r plant am reolau diogelu. Er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant i beidio â dal adnoddau yn eu dwylo wrth gerdded ar draws y lle chwarae. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac amddiffyn plant perthnasol ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn neu oedolyn. Maent yn cadw cofnod priodol o ddamweiniau a digwyddiadau ac yn monitro'r cofnodion ar gyfer diogelu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn cynlluniau amrywiol sy'n hyrwyddo bywydau iachus yn llwyddiannus, fel bwyta ffrwythau adeg byrbryd a gochi eu dwylo'n rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau plant ac yn ymateb yn dda i'w hanghenion. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n dda â'r plant, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Er enghraifft, maent yn eistedd a siarad gyda phlentyn anhapus er mwyn ei chysuro nes iddi setlo. Mae gan ymarferwyr wybodaeth dda am anghenion a hoffterau pob plentyn ac maent yn ymateb yn dda iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol i hybu ymddygiad

cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn addasu eu hiaith a'u geirfa er mwyn sicrhau bod yn plant yn eu deall yn iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn fodelau iaith da ac yn ymrwymedig i ddarparu ystod eang o weithgareddau chwarae a dysgu i'r plant yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio cwestiynau addas i herio dealltwriaeth y plant ac i wella eu geirfa ac yn darparu cyfleoedd effeithiol iddynt ddatblygu dealltwriaeth dda o'u Cymreictod ac o'r byd ehangach. O ganlyniad, mae mwyafrif y plant yn ymateb yn gadarnhaol trwy ystum neu air Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn ymwybodol o ddatblygiad unigol plant ac yn gweithredu strategaethau priodol er mwyn eu cefnogi a sicrhau eu cynnydd. Mae'r rhan fwyaf yn cefnogi plant yn effeithiol trwy greu gofod y gallant chwarae ynddo a pharatoi gweithgareddau iddynt sy'n dilyn eu diddordebau. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn trwy rannu arsylwadau a thrafod unrhyw bryderon gyda'i gilydd yn gyson.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn deall anghenion yr ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda, ac yn darparu'n briodol ar eu cyfer. Mae'r ymarferydd sydd â chyfrifoldeb am anghenion dysgu ychwanegol yn cysylltu'n rheolaidd ag asiantaethau allanol priodol er mwyn cael cyngor a chyfarwyddyd, lle bo angen.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu a chwarae diddorol i'r plant sy'n diwallu eu anghenion yn dda. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu drwy chwarae a chymryd rhan weithredol mewn cyd-destunau dilys. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio gweithgareddau hyblyg a diddorol sy'n seiliedig ar syniadau ac anghenion y plant. Maent yn ystyried gofynion y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau nas cynhelir ac nid ydynt yn cynllunio'n rhy bell i'r dyfodol er mwyn adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio thema fel Y Gwanwyn fel sail i waith y tymor, gan ystyried syniadau'r plant fel man cychwyn.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth drylwyr am ddatblygiad plant ac maent yn ei defnyddio  yn llwyddiannus wrth gynllunio gweithgareddau iddynt. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu yn annog y plant i arbrofi'n ddyddiol gan adeiladu'n systematig ar eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol.

Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant gymryd risgiau priodol, fel dringo ramp a chasglu trychfilod. Mae hyn yn caniatáu iddynt ddod yn archwilwyr mwy hyderus o'u hamgylchedd. Mae ymarferwyr yn dyfeisio tasgau sy'n datblygu dealltwriaeth plant o'r byd y maent yn byw ynddo a'u hannog i ofalu amdano, fel plannu blodau yn yr ardd a thyfu tatws i'w defnyddio mewn prydau yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn datblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn effeithiol, yn arbennig yn y Gymraeg. Maent yn siarad gyda phob un yn gyson ac yn cywiro'u iaith, lle bo'n briodol. Maent yn holi'n lled gelfydd er mwyn ceisio annog y dysgwyr i ymateb yn y Gymraeg, yn enwedig o ystyried mai ychydig iawn o'r plant sy'n siarad Cymraeg gartref.

Wrth gynllunio, nodir yr hyn sydd angen i'r plant ei wneud a'i ddysgu, ynghyd â'r hyn sydd angen i'r ymarferydd ei wneud er mwyn hwyluso hynny. Mae hyn yn annog y plant i feddwl drostyn nhw eu hunain ac i beidio â dibynnu gormod ar oedolion.

Mae'r lleoliad yn hybu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a diwylliant Cymru yn dda drwy ddarparu amrywiol weithgareddau iddynt, fel canu caneuon Cymraeg ac ati. Bu'r plant yn gwneud pice ar y maen ar Ddydd Gŵyl Dewi cyn eu coginio gartref gyda'u rhieni. Mae hyn yn cryfhau'r cyswllt â rhieni trwy eu hannog i helpu eu plant gartref.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Mae ymarferwyr yn dyfeisio gweithgareddau penodol iddynt ddefnyddio eu chwilfrydedd a chanolbwyntio'n benodol ar yr awch a rhyfeddod am y byd mewn amrywiaeth o gyd-destunau fel astudio natur yng ngardd y lleoliad. Maent yn canolbwyntio ar feithrin gonestrwydd, tegwch, parch a gwneud yn iawn o'u cam yn eu holl weithgareddau ac yn sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt drin ei gilydd eu hamgylchedd a'u hadnoddau'n ofalus. Mae gweithgareddau i sicrhau bod plant yn deall pwysigrwydd ailgylchu yn dda iawn. Mae gweithgareddau i ddatblygu medrau cymdeithasol y plant yn cynnwys cymryd cyfrifoldebau fel dosbarthu adnoddau a thacluso, a dangos menter yn ystod eu tasgau, fel adeiladu llwybr o bren er mwyn osgoi cerdded ar y ddaear oddi tano. Mae ffocws priodol ar ddatblygu dealltwriaeth y plant o wahanol diwylliannau. Maent yn cynllunio cyfleoedd iddynt ddewis a gwrando ar amrywiaeth o ganeuon mewn sesiynau torfol, a dysgu am Divali, y flwyddyn newydd Tsieineaidd, ac arferion y Nadolig.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfredol addas am ddatblygiad plant ac effaith anghenion dysgu ychwanegol ar eu datblygiad. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r holl blant, gan gynnwys yr ychydig iawn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Maent yn adnabod eu plant yn dda ac yn deall eu hanghenion datblygiadol yn drylwyr.

Mae ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd ac yn dosbarthu unrhyw gofnodion yn systematig i'r gweithiwr allweddol priodol er mwyn iddynt ddeall eu cryfderau, y meysydd i'w gwella a'u cynnydd ym mhob agwedd. Bydd y gweithiwr allweddol, maes o law, yn cofnodi'r rhain ar broffil y plentyn, sy'n cyfrannu at eu hasesiadau crynodol. Mae'r dull hwn o gofnodi yn sicrhau bod gan y gweithiwr allweddol adnabyddiaeth glir a chyflawn o ddatblygiad pob plentyn ym mhob maes ac yn eu galluogi i roi adborth cyson a chywir i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plant.

**Yr amgylchedd:**

Mae gan y lleoliad ddau lawr gyda dwy ystafell ddysgu ar y naill lawr a'r llall yn ogystal ag ardal allanol. Mae'r amgylchedd yn ddiogel a glân, ac o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn dda. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad gan sicrhau eu bod yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol wrth i'r plant gyrraedd a gadael y safle. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol ar waith er mwyn monitro a rheoli unrhyw beryglon posibl ac maent yn delio ag unrhyw faterion cysylltiedig yn gyflym ac yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn cynnal amrywiaeth o brofion diogelu yn rheolaidd.

Fodd bynnag, nid ydynt wedi gweithredu ymarferion tân yn rheolaidd dros y deunaw mis diwethaf. Mae’r arweinydd ac ymarferwyr yn rhagweithiol er mwyn adnabod a lleihau risg yn gyson, er enghraifft trwy gwblhau rhestr wirio yn ddyddiol ar gyfer pob rhan o’r amgylchedd. Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad asesiadau risg ffurfiol ar gyfer yr amgylchedd na gweithgareddau achlysurol.

Mae’r lleoliad yn lle croesawgar a chyfeillgar, ac mae’n darparu amgylchedd cyfoethog a hapus ar gyfer chwarae a dysgu. Mae’r ymarferwyr yn rheoli’r symud rhwng y ddau lawr yn effeithiol iawn yn ystod y sesiynau dysgu. Mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd ac i ymarferwyr gefnogi gweithgareddau grŵp yn dda, fel yn yr adral chwarae anniben a'r gornel coginio neu amser stori. Mae hyn yn cefnogi datblygiad ym medrau plant ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae’r amgylchedd awyr agored yn rhoi gofod a chyfle priodol i blant fod yn weithredol yn gorfforol, i ymchwilio ac arbrofi yn yr awyr iach am gyfnodau priodol. Mae’r cyfleusterau bwyta yn addas i oed a nifer y plant, ac mae’r toiledau a’r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn paratoi amgylchedd ysgogol i'r plant ac yn sicrhau bod pob un yn elwa o'r ystod eang o adnoddau sydd ar gael. Mae gan y lleoliad nifer o arddangosfeydd deniadol, sy’n dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad bwriadus o hunan-barch a hunan-werth ymysg y plant. Mae’r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu cynnal yn effeithlon. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i’w dewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae’r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ystod eang o deganau ac adnoddau dysgu sydd ar gael i gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hannog i fod yn chwilfrydig. Er enghraifft, maent yn ychwanegu deunydd naturiol, plastig a chyfarpar go iawn i blant eu defnyddio yn yr ardaloedd chwarae. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddysgu’n bwrpasol am ailgylchu adnoddau fel papur a bwyd, er enghraifft trwy ailgylchu gwastraff cardfwrdd i greu offerynnau cerdd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, yn seiliedig ar sicrhau bod pob plentyn yn hapus, yn derbyn gofal da a'u bod yn gwneud cynnydd da mewn amgylchedd Gymreig. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cydweithio mewn amgylchedd hapus. Ceir ethos cadarnhaol ac mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae amcanion y lleoliad yn glir ac yn canolbwyntio'n benodol ar y weledigaeth. Mae pob ymarferydd yn eu deall a'u gweithredu ac maent ar gael i rieni, yn ôl yr angen. Mae’r datganiad o ddiben a phecyn rhieni yn rhoi darlun cywir i’r rhieni o'r lleoliad.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel iddynt eu hunain ac i’r ymarferwyr. Maent yn cefnogi pob ymarferydd yn dda, yn rhoi cyfleoedd datblygiad proffesiynol addas iddynt ac yn eu hannog a'u herio i wneud eu gorau. Mae'r prif ffocws yn ddiweddar wedi bod ar ddatblygu’r cwricwlwm newydd a datblygiad plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dulliau cynllunio.

Mae cysylltiad agos ac effeithiol yn bodoli rhwng yr arweinwyr, yr unigolyn cyfrifol a’r ymddiriedolwyr. Mae hyn yn galluogi’r unigolyn cyfrifol a’r ymddiriedolwyr i gefnogi a

herio’r arweinwyr yn briodol i sicrhau llwyddiant y lleoliad. Mae arweinwyr a’r ymddiriedolwyr yn rhoi ystyriaeth addas i unrhyw gwynion ac yn mynd i'r afael â nhw'n briodol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau addas i werthuso ei waith. Mae'r rhain yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i nodi cryfderau'r lleoliad yn gywir ynghyd ag unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. Mae arweinwyr yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, plant a rhanddeiliaid eraill fel rhan o’r gweithdrefnau hyn ac yn defnyddio’r deilliannau i flaenoriaethu materion y maent am eu gwella. Fodd bynnag, nid yw’r blaenoriaethau yn y cynllun gwella bob amser wedi eu geirio’n ddigon clir nac yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar ddysgu a chynnydd plant. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i fesur eu heffaith.

Mae arweinwyr yn caffael grantiau amrywiol a sylweddol i gyfoethogi adnoddau a dyrennir cyllid priodol i geisio gwella ansawdd y gofal, y chwarae a'r dysgu. Mae gwariant yn sicrhau bod yr adnoddau o ansawdd da ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd addas o'r cyllid y mae'n ei dderbyn, gan gynnwys y Grant Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar, i ehangu adnoddau.

Mae gan y lleoliad nifer dda o ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad perthnasol a phriodol. Mae ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau'n dda mewn perthynas â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol y lleoliad. Er hyn, nid yw gweithdrefn y lleoliad i oruchwylio ac arfarnu eu gwaith yn ddigon trylwyr ac nid ydynt bob amser yn arwain at dargedau clir i wella. Er bod y lleoliad wedi dechrau’r broses o adnewyddu gwiriad diogelu ar gyfer yr unigolyn cyfrifol, nid yw hyd yma wedi derbyn tystysgrif.

Mae gan y lleoliad hanes llwyddiannus o weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Un grŵp o bartneriaid pwysig y mae’n gweithio’n agos gyda nhw yw’r rhieni a gofalwyr. Mae’n cysylltu’n agos gyda nhw i nodi anghenion a dewisiadau unigol eu plentyn cyn iddynt gychwyn ac yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae ymarferwyr hefyd yn ymgysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr er mwyn iddynt ddeall cryfderau ac unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu. Mae gan y lleoliad lwyfan cyfryngau cymdeithasol caeedig i rannu negeseuon, cyngor, cynlluniau a gweithgareddau gyda rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn ddefnyddiol iddynt weld beth mae eu plentyn wedi bod yn ei wneud yn y lleoliad ac i ddathlu eu llwyddiannau. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

**Dyddiad cyhoeddi: 07/06/2022**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid yw'r unigolion cyfrifol yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd, priodol gyda phob aelod o staff. | Newydd |
| 6 | Nid yw’r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau eu bod hwy a phawb sydd â mynediad uniongyrchol i blant bod ganddynt dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manylach gyfredol. | Newydd |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/06/2022